Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talyllychau nos Fawrth 4 Mehefin am 7.30 p.m.
Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Janine Roberts (Cadeirydd) Sarah Walters, John Williams, Marged Bowen, Pauline George, Eifion Roberts, y Cynghorydd Sir Joseph Davies, a Jane Morgan (Clerc). Ymddiheuriadau: Nigel Lovatt a Rhys Williams.
Nodwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion sy'n codi.
Y Cae Cymunedol. Trafodwyd neges e-bost gan Mr Gethin Richards, Pennaeth Ffederasiwn Cwrt Henri, Ffairfach a Thalyllychau. Yn ôl Mr Richards, roedd Cae'r Ysgol yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin, ac roedd y tir yn cael ei gynnal trwy'r Cyngor ac nid trwy'r ysgol. Gwrthodwyd y cais am i blant Ysgol Talyllychau annerch y Cyngor Cymuned. Cytunwyd y dylid anfon ateb yn nodi'r ohebiaeth honno, ynghyd â chopi o'r Weithred a'r Cynllun a anfonwyd at yr ysgol fis Medi diwethaf yn dangos y fynedfa i'r Cae Chwarae Cymunedol. Gofynnwyd am i Gorff Llywodraethu'r Ysgol, Aelodau o'r CRhA a Gweithwyr y Cyngor Sir gael gwybodaeth lawn am y fynedfa sydd eisoes yn bodoli.
Trafodwyd giât mynediad 4 troedfedd. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid cynnal Cyfarfod Safle ddydd Mawrth 11 Mehefin am 7.30 p.m. yn y Cae Cymunedol i drafod mynediad.
Bydd y Daith Feicio Menywod Fyd-eang yn mynd trwy'r pentref ddydd Sadwrn 15 Mehefin, a chytunwyd y dylid gosod y baneri bach a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn unig.
Diweddariad ar y goeden sy'n pwyso ger Llwybr Troed 64/34 wedi dod i law gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Yn dilyn cyfarfod safle yn gynharach eleni, dywedodd y Cyngor fod y goeden sy'n pwyso yn tyfu ar Dir Comin sy'n eiddo i Ystad y Goron, a fydd yn trefnu i gontractwr ymweld â'r safle.
Rheoliadau ar gyfer Gweinyddu Mynwent yr Eglwys i'w rhoi ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.
Copi i gael ei anfon at y Cynghorwyr trwy e-bost cyn y cyfarfod nesaf.
Taliadau i'r Aelodau i'w rhoi ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.
Gohebiaeth.
Balans ar y Gyfriflen Banc dyddiedig 16.05.2019. £6.151.86. Yn cynnwys praesept o £2,666.66 a dalwyd i mewn ar 30.04.2019. Gwiriwyd gan Janine Roberts.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:
J. Morgan. Cyflog y Clerc £152.46.
Cyllid y Wlad £38.20.
Adnewyddu Ffi Diogelu Data £40.00.
Trywydd. Gwasanaeth Cyfieithu. Ionawr a Chwefror £51.89.
Grave Concerns. Torri Glaswellt y Fynwent. £500.00.
Anfoneb am y gwaith a wnaed gan yr Archwilydd Mewnol. £200.00.
Llythyr gan Un Llais Cymru yn gofyn am fanylion cyswllt ar gyfer Cynghorydd enwebedig i gynrychioli'r Cyngor yn y Cyfarfodydd Pwyllgor Ardal chwarterol. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd fod yn gynrychiolydd cyntaf, ac y dylai'r Is-gadeirydd fod yn ail gynrychiolydd.
Cafodd yr ohebiaeth ganlynol ei dosbarthu a'i thrafod:
Cais am Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan Gyngor Sir Caerfyrddin.
Estyniad i Orchymyn Diogelu Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) 2016. Oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin.
Cynllunio. Nid oedd unrhyw Geisiadau Cynllunio.

Yr Archwiliad Ariannol. Y Ffurflen Dreth Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Trafodwyd Adroddiad yr Archwilydd mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Roedd yr holl brofion penodedig mewn perthynas â Systemau Rheoli Mewnol y Cyngor wedi'u cwblhau mewn modd boddhaol, ac, o ganlyniad, nid oedd yna unrhyw faterion i'w dwyn i sylw'r Cyngor ar yr adeg honno. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i gwblhau. Cafodd yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ei lofnodi gan y Clerc, J. Morgan. Cymeradwywyd gan y Cyngor a llofnodwyd gan y Cadeirydd, J. Roberts.
Asesiad Risg. Rheoliadau Ariannol. Rheolau Sefydlog. Roedd y rhain i gyd wedi cael eu hanfon trwy e-bost at sylw'r Cynghorwyr. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i'w mabwysiadu.
Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 10.10 p.m.
Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 2 Ebrill 2019, am 7.30 p.m.